**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**6 Gorffennaf 2016**

---

**Adroddiad gan:** **John Davies – Pennaeth Addysg, Wrecsam**

**Pwnc:** **Y Rhwydwaith Cyllid ac Adnoddau**

---

## 1.0 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Diweddaru Cyd-bwyllgor GwE ar weithgareddau'r Rhwydwaith uchod.

## 2.0 Cefndir

2.1 Sefydlwyd y Rhwydwaith er mwyn darparu gwybodaeth ariannol ac arweiniad i Fwrdd Rheoli GwE, yn benodol ar faterion yn ymwneud â Chyllid Ysgol a Grantiau Rhanbarthol. Fodd bynnag, eir i'r afael â materion eraill yn ymwneud â Chyllido Addysg pan fo angen gwneud hynny.

2.2 Mae'r Rhwydwaith hefyd yn cynnig gwybodaeth ariannol mewn perthynas â datblygiadau cydweithredol er mwyn sicrhau polisïau cyson.

2.3 Mae gan y Rhwydwaith ffocws parhaol ar adnabod ffyrdd o leihau biwrocratiaeth ariannol i ysgolion, gan gynnal hygrededd ariannol cyfrifon ysgolion.

**3.0 Grantiau Rhanbarthol**

3.1 2016/17 Grant Gwella Addysg (GGA)

3.1.1 Dyma ail fwyddyn y GGA ers ei ffurfio yn 2015/16 pan gyfunwyd un ar ddeg o grantiau penodol blaenorol (gan gynnwys cyfraniadau ariannu cyfatebol Awdurdod Lleol fel y bo'n briodol) a oedd yn cynnwys y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, Grant y Gymraeg mewn Addysg, Rhwydwaith 14-19 a Grant y Cyfnod Sylfaen. Roedd y broses gychwynnol hon o gyfuno hefyd yn cynnwys toriad ariannol o £3.4 miliwn (10%) i ddyraniadau'r flwyddyn flaenorol.

3.1.2 Roedd y Rhwydwaith yn rhan o drafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (LlC) ynghylch cynnwys y Telerau ac Amodau ar gyfer y GGA newydd, ble eglurwyd yr angen am lai o fiwrocratiaeth ariannol i ysgolion. Roeddem yn falch o weld hyn yn cael ei gyflawni pan dderbyniwyd y Telerau ac Amodau, a hynny drwy beidio gorfod tracio gwariant gwirioneddol ar yr elfen grant datganoledig gan alluogi ysgolion i ganolbwyntio ar gyflawni ac ar ddeilliannau.

3.1.3 £29,398,348 yw cyfanswm y grant ar gyfer Gogledd Cymru yn 2016/17 yn dilyn toriad pellach o £1.5 miliwn (4.9%). Disgwylir hefyd i'r arian cyfatebol gorfodol ostwng o £129,400 (4.9%) i £2,500,672, ond rydym yn parhau i ddisgwyl ar hyn o bryd am y Telerau ac Amodau terfynol er mwyn cadarnhau hyn.

**Amcangyfrifir felly mai cyfanswm gwariant gros y GGA ar gyfer 2016/17 fydd £31,899,020, ac y bydd dros £27 miliwn (85%) o'r cyfanswm hwn yn cael ei ddatganoli i ysgolion.**

3.1.4 Parheir i seilio'r dull o ddosbarthu'r GGA rhwng yr ALlau yn bennaf ar y sail hanesyddol a ddefnyddiwyd gan LlC ar gyfer rhannu'r un ar ddeg grant blaenorol, sef y sail a ddefnyddir eisoes gan LlC ar gyfer dosbarthu'r GGA.

3.2 Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) 2016/17

3.2.1 Mae cyllido ar gyfer disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (PYD) yn yr ystod oedran 5-15 yn cynyddu o £1,050 y pen yn 2015/16 i £1,150 y pen yn 2016/17, tra bod cyllido ar gyfer disgyblion PYD 3 a 4 mlwydd oed yn parhau yn £300 y pen. Y cyfanswm felly yw:

- £14,877,550 ysgolion ystod oedran 5-15 (2015/16 £13,803,300)
- £806,700 ysgolion ystod oedran 3-4 (2015/16 £836,100)

- £61,500 ysgolion ystod oedran 3-4 nas cynhelir (2015/16 £70,800)
- £671,600 plant mewn gofal (2015/16 £661,500)
- £108,400 unedau cyfeirio disgyblion (2015/16 £0)
- **£16,525,750 Cyfanswm (2015/16 £15,371,700)**

3.3 Mae GwE yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr i ysgolion ar eu defnydd o'r GGA a'r GAD, gan gymryd cyfrifoldeb dros fonitro a herio'u defnydd o'r cyllid hwn.

**4.0 Rhaglen waith ar gyfer y dyfodol**

4.1 **GGA** – ystyried a datblygu dull cyson o ddosbarthu rhwng ysgolion ar gyfer Gogledd Cymru (unwaith y mae LlC wedi rhyddhau canlyniadau eu hadolygiad o'u dulliau o ddosbarthu i Gonsortia)

4.2 **GAD** – annog trafodaeth bellach gyda swyddogion LlC a rhwydweithiau eraill gyda'r bwriad o gael gwared ar y fiwrocratiaeth ariannol gwbl ddianghenraid sy'n bodoli o fewn y GAD

4.3 **Staff nad ydynt yn staff dysgu mewn ysgolion** – cefnogi cydweithwyr AD yn eu hadolygiad o delerau ac amodau cyflogaeth ar draws ALlau Gogledd Cymru

4.4 **Unrhyw ymarferion 'Gorchwyl a Gorffen' eraill a dderbyniwyd gan Fwrdd Rheoli GwE**

**5 Materion i'w hystyried**

5.1 Dim.

**6.0 Argymhellion**

6.1 Dim.

**7.0 Goblygiadau ariannol**

7.1 Dim.

**8.0 Effaith ar gydraddoldeb**

8.1 Dim.

**9.0 Goblygiadau personél**

9.1 Dim.

**10.0 Ymgynghori a wnaed**

10.1 Ddim yn berthnasol

**11.0 Atodiadau**

11.1 Dim

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau cywirdeb y cynnwys.